EISTEDDFOD Y PLANT, LLANDRINDOD 2023

Ar ddydd Sadwrn 14eg Hydref cynhaliwyd yr Eisteddfod y Plant flynyddol yn Eglwys y Drindod Sanctaidd, Llandrindod. Gyda mwy na 70 o ddisgyblion yn cystadlu o 7 ysgol gynradd ac 1 meithrinfa yn y dref a'r cyffiniau, roedd yn ŵyl o ganu, barddoniaeth, celf a cherddoriaeth offerynnol. O dan lygad barcud y beirniaid Bethan Hiscocks (llenyddiaeth) a Lynne Griffin (cerddoriaeth), daeth perfformwyr mor ifanc â 4 oed i'r llwyfan i berfformio o flaen eglwys lawn, gan helpu i gadw'r traddodiad Eisteddfodol yn y Canolbarth yn fyw. Roedd y Parchg Andrew Tweed oedd yn cadw trefn ar bopeth gyda'i ofal arferol a'i hiwmor da. Cynhaliwyd yr eisteddfod yn ddwyieithog ac roedd yn cynnwys ceisiadau yn y Gymraeg a'r Saesneg gan gystadleuwyr iaith gyntaf ac ail iaith.

Agorwyd y cystadlu am 9.30am gan Gadeirydd yr Eisteddfod Mr Jonathan Williams, gyda disgyblion oed meithrin a derbyn yn camu ar y llwyfan i berfformio mewn llefaru a chanu unigol. Cafwyd perfformiadau rhagorol gan ddisgyblion ieuengaf Cyfnod Allweddol 2 gyda chymorth y cyfeilydd lleol, Bethan Thomas.

Yn ogystal â chystadlaethau ar y llwyfan, derbyniwyd nifer fawr o geisiadau mewn cystadlaethau oddi ar y llwyfan mewn categorïau celf, modelu 3D, llawysgrifen a llenyddiaeth. Cafodd rhain eu beirniadu gan Gwawr Tuffnell a Christine Haslock (Celf), Alan Quincey (Llawysgrifen), Joanna Quincey (3D), Nelda Foster (Stori) a Graham Haslock (Ffotograffiaeth). Ymysg y themâu eleni roedd "Creu Creadur", "Trysorau Cudd" a "Robot" - themâu a ddewiswyd gan Bwyllgor Ieuenctid Eisteddfod Llandrindod. Dangoswyd montage gwych o'r gwaith celf ar y diwrnod yng Nghanolfan Sant Ffransis yr eglwys, tra mwynhaodd y plant a'u teuluoedd luniaeth ysgafn a weiniwyd gan aelodau o bwyllgor yr Eisteddfod.

Derbyniodd pawb a gymerodd ran ar y llwyfan yn y Cyfnod Sylfaen fag anrheg wedi'i weu â llaw a gwobr ariannol, a derbyniodd y tri enillydd gorau yng Nghyfnod Allweddol 2 fag anrheg wedi'i wnïo â llaw a gwobr ariannol yr un. Dyfarnwyd gwobr ariannol sylweddol i'r côr buddugol, a chyflwynwyd tlysau i'r cystadleuwyr a oedd wedi plesio'r beirniaid fwyaf. Ffion Thomas oedd yr enillydd ar draws yr holl gystadlaethau Cerddoriaeth a Jack Hayward dderbyniodd y tlws Llenyddiaeth.

"Mae'r Eisteddfod yn mynd o nerth i nerth," meddai cadeirydd y pwyllgor, Jonathan Williams, yn siarad ar ôl y digwyddiad. "Rydym wedi ein bendithio â chnwd talentog iawn o bobl ifanc yn ein hardal, a rhieni ac athrawon cefnogol sy'n sicrhau bod y plant hyn yn cael y gorau o'u cyfle ar y llwyfan neu wrth greu rhywbeth ar gyfer cystadleuaeth oddi ar y llwyfan."

Yng nghategorïau uchaf Cyfnod Allweddol 2, cafwyd perfformiadau amrywiol o ganeuon a llefaru, darnau offerynnol ar y delyn 34-tant, gitâr a chornet, yn ogystal ag unawdau piano, deuawdau a thriawdau. Bu cystadlu brwd yng nghystadlaethau blynyddol y côr a'r ensemble cerddorol, gydag Ysgol Trefonnen yn cipio'r clod a'r cwpan, a noddir gan y Cyngor Tref, am eu perfformiadau corawl medrus o Hen Hen Stori a When I Grow Up. Ensemble drymio CP Cefnllys ddaeth yn gyntaf am eu rhythmau samba cyffrous.

"Rydym yn edrych ymlaen yn barod at 2024, ond rydym yn apelio ar rieni, aelodau teulu a staff ysgolion i roi ychydig o oriau i helpu ein pwyllgor bach i gyflwyno'r arddangosfa anhygoel hon o dalent ifanc, gan fod y plant yn elwa cymaint o'r profiad. "Mae'n beth gwych i fod yn rhan ohono ac yn rhoi boddhad mawr i ni i gyd," meddai Mr Williams.

Bydd Eisteddfod Plant Llandrindod yn dychwelyd yn 2024.